



Llywodraeth Cymru
Briffio ac ymgysylltu prosiect - crynodeb o ymatebion

Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru

Hydref 2019

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
2. Datblygiad cynigion	5
3. Briffio prosiect ac ymgysylltu cynnar	7
4. Dadansoddiad o ymatebion	10
Dadansoddiad o adborth y gymuned.....	10
Dadansoddiad o adborth rhanddeiliaid	22
5. Casgliadau	25
6. Camau nesaf.....	26
Atodiad 1: Llythyr rhagolwg rhanddeiliaid	
Atodiad 2: Llythyr i'r gymuned	
Atodiad 3: Ardal ymgysylltu/ymgynggori	
Atodiad 4: Hysbysebion	
Atodiad 5: Posterï.....	
Atodiad 6: Ffurflen ymateb	

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu cynigion am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar safle cloddio glo brig a golchfa lo yn Onllwyn a Nant Helen ar flaenau Cymoedd Dulais a Thawe. Mae'r cynigion yn ffurfio rhan ychwanegol bwysig i strategaeth adnewyddu'r safle a gynigir gan Celtic Energy, gan weithredu fel sbardun i arloesedd, buddsoddiad yn y diwydiant rheilffyrdd a'i ehangu yng Nghymru, y DU yn ehangach ac yn rhwngwladol.
- 1.2 Mae gwaith ymgysylltu cynhwysfawr ag ystod eang o randdeiliaid yn hanfodol i ddatblygu'r cynigion gorau posibl, ac mewn ymateb i gymhlethdodau'r prosiect hwn, cynhelir gwaith ymgysylltu fesul cam i alluogi trigolion lleol a rhanddeiliaid i helpu i lunio'r uwchgynllun ar gyfer y safle.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar yr ymgysylltu cynnar yr ymgwymerwyd ag ef ar y prosiect hwn, gan gynnwys dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd. Bydd ymatebion i faterion allweddol yn cael eu darparu yn ystod yr ymgynghoriad statudol, pan fydd astudiaethau amgylcheddol wedi cael eu cynnal i ddeall effeithiau posibl yn llawn a bod mesurau lliniaru priodol wedi cael eu nodi.
- 1.4 Fel rhan o ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y prosiect, cynhaliwyd gwaith 'profi marchnad sylfaenol' helaeth gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd. Mae hyn wedi galluogi i anghenion y busnes gael eu harchwilio ac i gyngor technegol gael ei ymgorffori yn y dyluniad cychwynnol. Ffuriodd y cynllun hwn wedyn sail briffiad y prosiect ac ymgysyllu cynnar gyda thrigolion ac ystod eang o randdeiliaid lleol a chymunedol (2 Gorffennaf - 7 Hydref 2019).
- 1.5 Roedd dogfen grynhoi gyda gwybodaeth am y cynigion oedd yn codi a ffurflen adborth ar gael ar dudalen gwe'r prosiect ac mewn copi caled yn y sesiynau galw i mewn. Roedd yr holl ddeunydd ymgynghori ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Cafodd e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad rhadbost hefyd eu darparu ar gyfer y prosiect.
- 1.6 Mae'r holl adborth wedi cael ei adolygu a'i ystyried i helpu i adnabod ffyrdd o hyrwyddo buddion cymdeithasol ac economaidd tra'n lleihau effeithiau amgylcheddol. Mae dadansoddiad o faterion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgysylltu cynnar yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad hwn.
- 1.7 Mae trafodaethau ar y cynlluniau sy'n codi hefyd yn parhau gyda'r diwydiant rheilffyrdd i sicrhau bod prosiect hyfyw, cynaliadwy a buddsoddadwy'n cael ei sefydlu sy'n gallu symud ymlaen o drafod a chynllunio i gyflawni.

- 1.8 Bydd canlyniadau'r ymgysylltu hwn â'r gymuned leol, rhanddeiliaid a diwydiant yn helpu i ffurfio'r cynllun dewisol, a fydd yn destun ymgynghoriad statudol cyn i'r cynigion gael eu cwblhau a'u cyflwyno ar gyfer caniatâd cynllunio.

2. Datblygiad cynigion

- 2.1 Mae'r diwydiant rheilffyrdd yn faes twf arwyddocaol i Gymru. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i adfywio rhwydwaith y rheilffyrdd wrth ddarparu gwasanaethau a stoc rholio (trenau a cherbydau) newydd, atebion arloesol a rhaglen arwyddocaol o fuddsoddi mewn gorsafoedd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi £800 miliwn o 2023 ymlaen tuag at sicrhau y bydd 95% o deithiau ar drenau newydd, gyda mwy na hanner y stoc rholio'n cael eu cyfiosod yng Nghymru.
- 2.2 Mae Bargen Sector Rheilffyrdd Llywodraeth y DU (2018) yn amlinellu dull newydd sy'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat i gynyddu arloesedd a chynhyrchiant. Ei nod yw sicrhau y dylai'r DU gyflawni buddion technoleg ddigidol newydd a bod ar flaen y gad yn fyd-eang o ran technoleg rheilffyrdd a datgarboneiddio, gan gynyddu allforion a sgiliau.
- 2.3 Mae'r angen am gyfleuster profi o'r radd flaenaf i gefnogi a chyflymu'r broses o gyflawni'r amcanion strategol hyn wedi cael ei gydnabod yn glir gan Lywodraeth y DU. Wrth i'r trenau newydd a chydannau eraill gael eu cyflwyno i rwydwaith rheilffyrdd y DU, mae'n rhaid eu profi'n drylwyr cyn eu rhoi ar waith. Ar hyn o bryd, bydd trenau sy'n cael eu gweithgynhyrchu yn y DU yn cael eu cludo'n aml i gyfleusterau profi yn Ewrop ar gost arwyddocaol. Mae Network Rail yn defnyddio cyfleusterau profi seilwaith yn yr Unol Daleithiau.
- 2.4 O ganlyniad, byddai cyfleuster profi yng Nghymru'n lleihau costau'r diwydiant, yn cyflymu'r broses o ddatgarboneiddio gan helpu i hwyluso arloesedd, cynyddu sgiliau a hyfforddiant a chreu swyddi yn y DU. Gan gofio'r galw am gyfleusterau profi ledled Ewrop a thu hwnt, disgwylir y bydd Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru hefyd mewn sefyllfa dda i allu denu busnes rhyngwladol.
- 2.5 Disgwylir y byddai sefydlu'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn cael ei gyflawni wrth gyfuno tair rhan wahanol:
 - Cylch profi cledrau allanol cyflymder uchel wedi'i drydanu (6.9km), cylch profi cledrau allanol cyflymder isel wedi'i drydanu (4.5km), ac adeilad rheoli ar dir sy'n gysylltiedig â'r mwynglawdd agored.
 - Canolfan ymchwil a gweithrediadau i gynnwys capasiti cynnal a storio ar dir sy'n gysylltiedig â'r olchfa.
 - Cledrau profi trenau llinellol cyflymder isel mecanyddol (555metr).¹
- 2.6 Byddai angen datblygu cysylltiedig ar bob cydran, gan gynnwys gwrthgloddiau, isadeiledd cyfleustodau a diogelwch, ffyrdd mynediad, mannau parcio ceir, draenio a thirlunio.
- 2.7 Bydd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) yn cael ei gynnal i nodi'r effeithiau arwyddocaol (andwyol a buddiol) tebygol yn deillio o weithgareddau adeiladu a

¹ Mae'r cyfleuster llinellol hwn wedi cael ei ddwyn i'r prosiect gan Network Rail a dylai yn ôl pob tebygolrwydd gael ei weld fel dewis arall neu ased profi isadeiledd cam cyntaf os am ryw reswm fod prosiect cylch prawf i'r cledrau mewnol dewisol yn cael ei oedi'n arwyddocaol.

gweithredol y prosiect ar yr amgylchedd lleol a'r boblogaeth leol. Bydd yr Asesiad yn cynnwys bioamrywiaeth, sŵn a dirgryniad, ansawdd aer, traffig a chludiant, hydroleg a llifogydd, amodau'r ddaear, treftadaeth ddiwylliannol, tirwedd ac effaith weledol, iechyd a lles, a newid hinsawdd. Pan fydd yr amgylchiadau amgylcheddol presennol ar draws y safle wedi'u cadarnhau ac ar ôl gwnaed asesiad o'r effeithiau arwyddocaol tebygol, caiff mesurau lliniaru eu cynnig.

3. Briffio prosiect ac ymgysylltu cynnar

- 3.1 Ar 21 Mai 2019 gwnaeth Ken Skates AC **ddatganiad llafar** ar gynnydd ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru. Darparodd ddiweddariad ar yr achos busnes amlinellol a Chytundeb Menter ar y Cyd (JVA) y mae Llywodraeth Cymru a Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys yn rhan ohono, amlygodd rai o'r prif fuddion y gallai'r prosiect alluogi a chyhoeddodd yr ymgysylltiad cyhoeddus sydd i ddod. Cafodd hyn ei ddilyn gan **sesiwn briffio** i Aelodau'r Cynulliad.
- 3.2 Cafodd **Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori** ei ddatblygu a amlinellodd: gyda phwy yr ymgynghorir; sut/pryd yr ymgynghorir â hwy; cwmipas yr ymgynghoriad; sut/pryd y darperir adborth; a manylion cyswllt ar gyfer y prosiect. Cafodd y cynllun drafft ei drafod gyda swyddogion cynllunio Cynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys a chynrychiolwyr etholedig lleol. Cafodd eu safbwyntiau eu hystyried a'u hymgorffori yn y Cynllun terfynol. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn yr ardal ymgynghori, rhanddeiliaid ychwanegol i ymgysylltu â hwy a chynghor ynghylch y lleoliadau ac amseru'r digwyddiadau galw heibio.
- 3.3 Cafodd **tudalen gwe'r prosiect** - <https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd> - ei diweddarau i gynnwys dogfen grynhoi a gyflwynodd y prosiect i gynulleidfa ehangach, darparodd wybodaeth am y cynigion sy'n codi a hysbysebodd y digwyddiadau ymgysylltu a mecanweithiau adborth. Roedd yr holl ddeunydd ymgysylltu ar gael yn y Saesneg a'r Gymraeg.
- 3.4 Cafodd **llythyr** ei anfon at dros 300 o randdeiliaid lleol i'w cyflwyno i'r prosiect a'u gwahodd i **ragolwg rhanddeiliaid** cyn y sesiynau galw heibio cyhoeddus (gweler Atodiad 1). Mynychodd dros 36 o gynghorwyr a chynrychiolwyr o grwpiau cymuned lleol ragolwg y rhanddeiliaid o 10am hyd at hanner dydd 17 Gorffennaf 2019 yn Neuadd Les yr Onllwyn.



- 3.5 Cafodd **cyfarfod briffio** ei gynnig hefyd i gynrychiolwyr etholedig gan gynnwys ACau/ASau a Chynghorau Cymunedol. Cafodd y cynnig hwn ei dderbyn gan Kirsty Williams AC a Chyngor Cymunedol Tawe Uchaf.
- 3.6 Cafodd **llythyr** yn cyflwyno'r cynigion ac yn hysbysebu'r sesiynau galw heibio cyhoeddus (gweler Atodiad 2) ei anfon at dros 9,500 o drigolion/busnesau lleol o fewn yr ardal ymgysylltu/ymgyngori graidd a gytunwyd â chynrychiolwyr lleol yn ystod trafodaethau ar y Cynllun Ymgysylltu/Ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys cyfeiriadau yn Abercraf, Caehopkin, Coelbren, yr Onllwyn, Blaendulais, Glyn-nedd, y Creunant, Ystalyfera ac Ystradgynlais. Gweler Atodiad 3 am fap o'r ardal ymgysylltu/ymgyngori.
- 3.7 **Cafodd sesiynau galw heibio cyhoeddus** eu cynnal i gynnig cyfle i bobl drafod y cyfleoedd, ystyriaethau safle a chynigion sy'n codi gydag aelodau o dîm y prosiect (o Lywodraeth Cymru, Arup a Grasshopper Communications). Cafodd dwy sesiwn galw heibio cyhoeddus eu cynllunio i ddechrau - yn yr Onllwyn ac yn Abercraf. Ar gais trigolion lleol a Kirsty Williams AC, cafodd sesiwn galw heibio gyhoeddus ei threfnu yng Nghoelbren.

Dyd diad	Amser	Lleoliad	Presenoldeb
17 Gorffennaf 2019	1pm-7pm	Neuadd Les yr Onllwyn	188
18 Gorffennaf 2019	1pm-7pm	Neuadd Les a Sefydliad Glowyr Abercraf	133
3 Medi 2019	3pm-7pm	Neuadd Les Coelbren	60



- 3.8 Cafodd sesiwn galw heibio ei chynnal hefyd yn swyddfeydd safle Celtic Energy, Nant Helen ar gyfer staff.

Dyd diad	Amser	Lleoliad	Niferoedd yn mynychu
30 Gorffennaf 2019	1pm-3pm	Swyddfeydd Safle Celtic Energy, Nant Helen	31



- 3.9 Cafodd y prosiect, proses ymgysylltu a sesiynau galw heibio eu hysbysebu trwy amrywiaeth o sianelau gan gynnwys:

- **Cafodd** hysbysebion eu gosod yn y South Wales Guardian (12 Gorffennaf) a'r South Wales Evening Post (15 Gorffennaf) - gweler Atodiad 4.
- **Cafodd** posterï eu hanfon at leoliadau cymunedol a Chynghorau Cymuned yn yr ardal leol ac ehangach i'w rhoi ar hysbysfyrddau cyhoeddus - gweler Atodiad 5.
- Defnyddiodd Llywodraeth Cymru **Twitter** i hyrwyddo'r digwyddiadau.

- 3.10 Cafodd y gymuned a rhanddeiliaid eu hannog i rannu eu safbwyntiau ar y cynigion trwy **ffurflen ymateb**, a oedd ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled yn y digwyddiadau galw heibio (gweler Atodiad 6). Roedd copi caled o friffiad y prosiect a'r ddogfen ymgysylltu gynnwys hefyd ar gael i'r rhai oedd yn bresennol i fynd gyda hwy. Roedd y ffurflen ymateb a'r ddogfen ymgysylltu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd cyfeiriad e-bost, rhif ffôn a rhadbost hefyd ar gael i ymatebwyr i wneud eu safbwyntiau'n hysbys. Derbyniwyd 72 o ymatebion, ac mae'r rhain wedi cael eu cyfuno a'u crynhoi ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.


4. Dadansoddiad o ymatebion

- 4.1 Mae'r adran hon yn darparu dadansoddiad o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgysylltu cynnar â'r gymuned leol a rhanddeiliaid. Mae sylwadau wedi cael eu categorio i brif themâu er hwylustod adolygu a dadansoddi.

Dadansoddiad o adborth y gymuned

Addasrwydd y safle

- 4.2 Dechreuodd y ffurflen adborth wrth ofyn i ymatebwyr fesur pa mor addas y credant y mae'r safle arfaethedig ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd - o addas iawn i heb fod yn addas o gwbl (Cwestiwn 1A). O'r 56 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif (59%) yn credu bod y safle'n addas iawn/gweddol addas, roedd 15% heb benderfynu ac roedd 26% yn credu nad oedd yn addas/nad oedd yn addas o gwbl.



- 4.3 Gofynnodd Cwestiwn 1B i ymatebwyr esbonio eu hateb i Gwestiwn 1A ynglŷn ag addasrwydd y safle ar gyfer y cyfleuster arfaethedig. Syrthiodd ymatebion yn fras i gyfleoedd o'r prosiect (buddion economaidd, cyfleoedd safle/lleoliad, buddsoddiad yn yr ardal a chyfleoedd arloesi) a phryderon am effeithiau posibl (amgylchedd ac isadeiledd) yn enwedig sy'n effeithio pobl sy'n byw yn agos at y safle. Roedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo na ddylai'r safle gael ei ailddatblygu ond ei ddychwelyd i gefn gwlad.

Materion a nodwyd	Nifer o sylwadau	Sylwadau manwl
Cyfleoedd		
Buddion economaidd	14	• Cyfleoedd swyddi a swyddi crefftus • Cyfleoedd twristiaeth • Hwb i fusnesau lleol • Datblygu cyfleuster modern, wedi'i adeiladu'n bwrpasol
Cyfleoedd safle/lleoliad	14	• Safle tir llwyd - wedi'i ddefnyddio'n ddiwydiannol yn flaenorol • Effeithiau amgylcheddol cadarnhaol • Gwelliannau tirlunio newydd • Mae'n gwneud y defnydd gorau o isadeiledd presennol
Buddsoddi yn yr ardal	6	• Y gymuned ddim yn teimlo ei bod wedi'i hanghofio • Buddsoddiad i'w groesawu mewn cyfleuster o'r radd flaenaf yng Nghwm Dulais • Cymorth i ddatblygiad cynaliadwy • Refeniw gwasanaeth ychwanegol posibl i'r ardal
Yn annog arloesedd	3	• Croesawu diwydiant uwch-dechnoleg • Croesawu arloesi a phrofi ar gyfer locomotifau • Cyfleoedd gyda phrifysgolion
Nodau lles	2	• Pwysig bod y 7 nod lles yn cael eu dangos yn glir a'u gosod yn y cynigion datblygu
Ystyriaethau		
Sŵn	15	• Effaith sŵn ar drigolion yn ystod ac ar ôl adeiladu • Pryder am fonitro sŵn
Traffig	9	• Cynnydd mewn traffig yn ystod ac ar ôl adeiladu • Effaith ar bentrefi gan gynnwys y Creunant a Blaendulais • Isadeiledd/cyffyrdd ffyrdd gwael • Byddai angen gwella mynediad at y safle • Pryder am ddiogelwch ffyrdd • Pryder y bydd angen i stoc rheilffordd gael ei gludo i'r safle ar y ffordd
Oriau gweithredu	8	• Pryder am weithio 24/7 a'r effaith ar drigolion lleol a bywyd gwyllt
Effaith ar amwynder lleol	8	• Pryder am les trigolion a'u ffordd wledig o fyw • Pryder am agosrwydd at eiddo preswyl • Cwmpwys posibl mewn prisiau tai yn yr ardal

Effeithiau amgylcheddol eraill	7	• Effaith weledol - y cyfleuster a ffensio diogelwch • Llygredd aer • Llygredd golau'n effeithio ar awyrau tywyll • Effaith ar yr amgylchedd hanesyddol a choetir lleol hynafol • Effaith ar fywyd gwyllt lleol gan gynnwys Gwehyddion Sioncyn y Gwair, Cyflinrod, Ehedyddion, Corhedyddion y Waun a Throellwyr Mawr • Daeargrynfeydd • Treftadaeth ddiwylliannol/amgylchedd hanesyddol • Materion eraill yn cynnwys dirgryniad, amodau daear, topograffeg a llygru
Mae'r safle'n anaddas	2	• Mae'r safle'n rhy fach a'r capasiti profi cyflymder yn rhy isel i gledrau prawf cystadleuol yn fyd-eang
Anaddas ar gyfer unrhyw ddatblygiad	2	• Adfer y safle i'w gyflwr naturiol
Amheuaeth ynglŷn â chyfleoedd lleol	2	• Amheuaeth y bydd y swyddi ar gyfer pobl leol
Safleoedd eraill	1	• Pa safleoedd ymgeiswyr eraill a gafodd eu nodi a'u hasesu'n erbyn meini prawf addasrwydd?

Cyfleoedd a chyfyngiadau'r safle

- 4.4 Awgrymodd tri deg saith o ymatebwyr gyfleoedd a ddylai gael eu harchwilio neu gyfyngiadau a ddylai gael eu hystyried wrth i'r prosiect symud ymlaen (Cwestiwn 1C). Mae'r cyfleoedd yn canolbwyntio ar swyddi lleol a hyfforddiant, twristiaeth, cyfleoedd ehangach i linell y rheilffordd, tirlunio a buddion i'r cymunedau lleol. Mae'r cyfyngiadau a amlygwyd yn cyfeirio at effeithiau amgylcheddol sy'n effeithio ar gymunedau lleol, mynediad i'r safle/ystyriaethau priffyrdd, y gallu i gyflawni a thir comin.

Materion a nodwyd	Nifer o sylwadau	Sylwadau manwl
Cyfleoedd		
Creu swyddi lleol a chyfleoedd dysgu i bobl leol	8	• Prentisiaethau ar gyfer y dyfodol • Darparu cyfleoedd hyfforddi • Datblygu partneriaethau gyda Phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd • Datblygu cysylltiadau gydag ysgolion a grwpiau eraill • Mae'n bwysig ymgysylltu â phobl ifanc ynglŷn â chyfleoedd cyflogi'r dyfodol

Atyniad twristiaeth	7	• Creu porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog • Adrodd stori treftadaeth yr ardal a chysylltiadau â chludiant • Cefnogi datblygiad llety ymwelwyr e.e. gwestai
Rheilffordd teithwyr	6	• Creu gwasanaeth teithwyr ac ailosod llinell gangen i Abertawe • Depo cynnal a chadw ar gyfer trenau sy'n cael eu defnyddio ar Fetro Abertawe
Adfer y safle a thirlunio'r ardal	5	• Plannu coed i ailgoedwigo'r ardal ac ailwylltio'r ardal • Ardal hamdden • Ardal bywyd gwyllt
Cefnogi'r cymunedau lleol	4	• Creu cronfa gymunedol • Cynnwys y cymunedau lleol i sicrhau bod y datblygiad yn rhan o'u cymuned • Datblygu cyfleusterau newydd ar gyfer pobl lleol
Gwelliannau rhanbarthol	2	• Defnyddio i wella isadeiledd rheilffyrdd Cymru a stoc rholio
		• Datblygu system fetro wedi'i thrydanu o gwmpas Abertawe
Cyfyngiadau		
Effaith ar drigolion lleol	11	• Effaith andwyol ar fywydau trigolion • Agwedd NIMBY trigolion lleol • Effaith ar y cominwyr a diffyg tir pori • Sicrhau integreiddio'r gymuned leol
Oriau gweithredu	8	• Cyfyngu'r oriau gweithredu • Pryderon am weithredu 24/7
Ystyriaethau safle	8	• Materion/tirlithriadau ymsuddiad posibl • Y safle'n rhy fach i brofi trenau ar gyflymder • Effaith weledol • Effeithiau amgylcheddol gan gynnwys llygredd • Cofebau wedi'u cofrestru – ffordd tram Claypon, adfeilion tŷ peiriant Drum
Sŵn	6	• Effaith ar bentrefi tawel gwledig
Goblygiadau mynediad at safle a thraffig	4	• Mynediad ar ffordd gyfyngedig ac yn bryderus am y gyffordd yng Nglyn-nedd a'r allt serth yn Onllwyn • Troeon tynn ar yr A4109 • Diffyg trydaneiddio ar y rhwydwaith rheilffordd cyfagos • Diogelu'r llwybr beiciau cenedlaethol ar y ffin ogleddol • Diogelu hawl tramwyo'r cyhoedd o Gwm Dulais i Ffordd Tram Claypon

Y gallu i gyflawni	2	• Cost • Parodrwydd
lawndal	1	• Talu iawndal i gominwyr am ddiffyg tir pori a'r rhai hynny y bydd gwerth eu tai'n syrthio

Prif rannau'r cynigion

- 4.5 Gofynnodd Cwestiynau 2a i ymatebwyr rannu eu meddyliau ar y cynigion presennol ar gyfer tair prif ran y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd: y cylchoedd profi cledrau; y ganolfan ymchwil a gweithredu; a'r trac prawf llinellol.

a. Cylch profi cledrau

- 4.6 Roedd 28 o ymatebion cadarnhaol ynglŷn â'r gylch profi cledrau, yn bennaf yn dweud ei fod yn 'syniad gwych', 'da' neu 'ardderchog'. Rhoddodd nifer fach o ymatebwyr sylwadau manylach ynglŷn ag adfywio corfforol yr ardal (3) a chreu swyddi/hyfforddiant (2). Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r gwasanaeth rheilffordd teithwyr gael ei gyflwyno.
- 4.7 Cododd ugain o ymatebwyr bryderon am y cylch profi cledrau gyda materion yn cynnwys: effaith ar drigolion (9); sŵn (7); pryderon amgylcheddol eraill fel golau, dirgryniad, effaith weledol (yn enwedig o'r gantri trydanol uwchben) (7) a cholli coetir hynafol/clawdd; pryder am weithio 24/7 (4); sylwadau nad yw'r cylch yn addas i'r pwrpas gan ei fod yn rhy fach i brofi trenau cyflym iawn (3); a phryder am agosrwydd at y llwybr beiciau ac amwynder preswyl lleol (1) ac effaith ar dwristiaeth (1).
- 4.8 Roedd nifer o awgrymiadau/ymholiadau gan ymatebwyr hefyd:
- A allai trenau hydrogen gael eu profi yma a beth yw'r goblygiadau?
 - A allai'r trac gael ei symud fel ei fod wedi'i leoli y tu mewn i'r safle presennol yn hytrach na thorri trwy goedwigaeth ar Gaehopkin?
 - A allai'r tir y tu mewn i'r trac fod ar gael ar gyfer defnyddiau eraill, fel gwarchodfa natur gyda mannau cerdded treftadaeth?
 - A allai'r cylch mewnol gael ei ddefnyddio i brofi stoc rholio sydd ei angen i fynd trwy droeon tynnach?

b. Y ganolfan ymchwil a gweithrediadau

- 4.9 Roedd 30 o ymatebion cadarnhaol ynglŷn â'r ganolfan ymchwil a gweithrediadau, yn bennaf yn dweud ei fod yn 'syniad gwych', 'da' neu 'ardderchog'. Rhoddodd nifer fach o ymatebwyr sylwadau manylach ynglŷn â chreu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant/addysg (6), adfywio corfforol yr ardal (3), cyfleoedd am gyfleuster o'r radd flaenaf (1) a'r angen am gyfleusterau profi wedi'u harwain gan ymchwil sy'n gallu cystadlu'n rhyngwladol (1).
- 4.10 Cododd naw o ymatebwyr bryderon am y ganolfan ymchwil a gweithrediadau gyda materion yn cynnwys: effaith ar drigolion (4); heb fod yn addas i'r pwrpas gan fod y cylch yn rhy fach i brofi trenau cyflym iawn (2); sŵn (1); gweithio 24/7 (1) a chynnydd mewn traffig yn defnyddio'r A4109 (1). Mynegodd un ymatebwr bryder y byddai'n cael ei ddefnyddio fel iard sgrap ar gyfer hen stoc rholio.

c. Y cledrau profi llinelllog

- 4.11 Roedd 20 o ymatebion cadarnhaol ynglŷn â'r cledrau profi llinelllog, yn bennaf yn dweud ei fod yn 'syniad gwych', 'da' neu 'ardderchog'. Rhoddodd nifer fach o ymatebwyr sylwadau manylach gyda dau'n cefnogi'r ddarpariaeth o fwy nac un cyfleuster profi i helpu sicrhau rhagor o fusnes a chreu cyfleuster o'r radd flaenaf (2).
- 4.12 Cododd pedwar ar ddeg o ymatebwyr bryderon am y ganolfan ymchwil a gweithrediadau gyda materion yn cynnwys: sŵn (8); gweithio 24/7 (3); effeithiau amgylcheddol - tirwedd, effaith weledol ac effaith ar hawliau tramwyo/rhwydwaith beicio (3); nid yn addas i'r pwrpas gan fod y gylch yn rhy fach i brofi trenau cyflym iawn (2); ac effaith ar drigolion (2)

Cyfleusterau posibl eraill

- 4.13 Gwnaeth tri deg pedwar o ymatebwyr awgrymiadau ynglŷn â chyfleusterau eraill a ddylai gael eu hystyried (Cwestiwn 2B) - naill ai ar y safle fel rhan o'r datblygiad neu yn yr ardal gyfagos.

Materion a nodwyd	Sylwadau manwl
Canolfan Ymwelwyr	• Canolfan/profiad ymwelwyr (6) • Pwynt gwyllo (1)
Cyfleoedd hyfforddi/ addysg	• Cyfleoedd hyfforddi - yn cynnwys prentisiaethau (5) • Cysylltiadau gyda Choleg Castell-nedd Port Talbot (1) • Canolfan datblygu peirianeg ddibynnol ar gyfer Prifysgol Abertawe (1) • Hyfforddiant Diogelwch Cledrau Personol (1)
Cyfleusterau eraill ar y safle	• Defnyddio deunydd gorlwythedig i greu twnnel ar gyfer y cledrau (1) • Adeiladu llain laniio heliport/helipad (2) • Gosod cyfleusterau datblygu Maglev a chledrau (1) • Safle profi cerbydau heb yrrwr yng nghanol y cylchoedd (1) • 'Siambwr hinsawdd' i alluogi profi hinsoddol trenau (1) • Llwybr beicio yng nghornel gogledd-ddwyrain y safle i annog teithio gweithredol i weithwyr (1) • Gorsaf metro Abertawe'n gwasanaethu'r safle a phentref yr Onllwyn (1) • Depo ar gyfer trenau metro Abertawe ar safle'r olchfa (1) • Dolen gledrau allanol sy'n gallu cynnig profi nad yw ar gael ar hyn o bryd ar gledrau Ewropeaidd eraill (1) • Canolfan arddangos (1) • Cwmpasu cyfleusterau ymchwil Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd i gynnwys mapio cysylltiadau posibl â chapasiti ymchwil sy'n bodoli ac arfaethedig a chyfleusterau ar draws pob maes (1)

Gwelliannau i drigolion lleol	• Sinema ar gyfer yr henoed (1) • Neuadd gymuned (1) • Neuadd chwaraeon/campfa (1) • Adeiladau ar gyfer sgowtiaid a geidiaid (1) • Gwasanaeth bws gwell (1)
Ardaloedd tirweddu a hamdden	• Tirweddu ac amwynder gweledol - yn cynnwys ardaloedd hamdden (4) • Adfer y safle fel amgylchedd naturiol (1) • Darparu trac beiciau modur ar dir nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithrediadau trenau e.e. coedwigaeth neu gylch mewnol (1)
Rhwydwaith rheilffyrdd lleol	• Agor/ailagor llinell ar gyfer trenau teithwyr - e.e llinell Castell-nedd ac Aberhonddu (2) • Gorsaf i deithwyr yn yr Onllwyn (2) • Estyn trydaneiddio ar draws Cymru (1)
Datblygu twristiaeth	• Llety i weithwyr ac ymwelwyr (2)
Sylwadau eraill	• Mae Prifysgol Caerdydd yn arwain rhwydwaith Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Peirannyddol a Chorfforol ledled y DU (EPSRC) ar Ddadgarboneiddio Trafnidiaeth trwy Drydaneiddio ac yn gweithio'n agos gyda Connected Places Catapult (1)

Datblygiad cysylltiedig

- 4.14 Darparodd pedwar deg un o ymatebwyr sylwadau neu bryderon ynglŷn â'r gwaith datblygu cysylltiedig a amlinellir ym mriif y prosiect a'r ddogfen ymgysylltu cynnar (Cwestiwn 3).
- 4.15 Mynegodd deunaw o ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwaith datblygu cysylltiedig, gyda rhai'n amlygu'r cyfleoedd adfywio achyflogaeth ac eraill yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith lliniaru priodol i fynd i'r afael â swm, materion draenio ac ecolegol a'r angen i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned leol. Cafodd defnyddio contractwyr lleol ei argymhell hefyd.
- 4.16 Cododd dau ddeg tri o ymatebwyr bryderon gan amlygu'r materion canlynol: traffig (7); swm (7); effaith ar y gymuned - effaith ar brisiau tai, tarfu ar y gymuned (4); oriau gweithredu – 24/7 (4); ac Effaith weledol (4).
- 4.17 Pryderon eraill a godwyd yn unigol oedd llwch, effaith ar yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archaeolegol (yn enwedig y tu allan i'r hen byllau cloddio ac ardaloedd bwnd heb bridd - gyda rhagor o effeithiau tebygol lle cynigir coridorau profi cledrau newydd), cyfyngiadau posibl ar hawl tramwyo cyhoeddus, amodau'r ddaear, priddoedd daear presennol, llygredd mewn golchfeydd glo, dirgryniad a'r angen i adfer y mynydd a datrys materion dŵr yn rhedeg i fwrdd.
- 4.18 Gwnaeth dau ymatebwr awgrymiadau ychwanegol:
- Bod â chynllun tymor hirach a bod yn glir am yr hyn sy'n digwydd mewn 10-15 mlynedd ar ôl y datblygiad.

- Yr angen am ymgynghori pellach ar uwchgyfrifiaduro pŵer uchel neu brosesu data/anghenion modelu a sefydlu safle sy'n gweithredu ar lefelau rhyngwladol o ddiogelwch data a seiber

4.19 Roedd nifer o ymholiadau hefyd am y defnydd o'r llinell gangen i mewn i'r safle:

- Sawl trên fydd yn rhedeg ar y llinell y dydd/yr wythnos? Ar hyn o bryd tua 2 drên y dydd a dim ar y penwythnos. Fydd trenau ar y penwythnos?
- Oherwydd y cynnydd tebygol yn nefnydd y llinell gangen a'r effaith amgylcheddol, bydd yn cael effaith ar werth fy eiddo. Pa iawndal fydd yn cael ei dalu am hyn?
- Mae'r cynnig i raddau helaeth yn datgan am ddatblygu a phrofi isadeiledd a chyfarpar, ond mae'n datgan cynnal a chadw, dadgomisiynu a storio trenau a cherbydau hefyd. Beth yw dwyster y teithiau ar y llinell gangen pob blwyddyn rhwng profi a datblygu a chynnal a chadw, dadgomisiynu a storio?

Ystyriaethau amgylcheddol

4.20 Darparodd tri deg naw o ymatebwyr sylwadau ar yr ystyriaethau amgylcheddol a amlygwyd (Cwestiwn 4A). O'r rhai hynny, amlygodd 27 o ymatebwyr ystyriaethau amgylcheddol y bydd angen mynd i'r afael â hwy wrth i'r prosiect ddatblygu:

- Sŵn (9)
- Goblygiadau bywyd gwyllt / bioamrywiaeth (7)
- Oriau gweithredu – 24/7 (3)
- Llygredd aer (3)
- Dirgryniad (3)
- Effaith Weledol (3)
- Angen adfer y mynydd (3)
- Llygredd golau (2)
- Traffig (2)
- Iechyd a lles (1)
- Cadw harddwch naturiol yr ardal (1)
- Ystyriaeth annigonol i raddfeydd amser wedi'u rhoi i'r amgylchedd (1)
- Diogelu coetir ar hyd llwybr beicio ar gyfer defnydd lleol (1)
- Ffynonellau pŵer (1)
- Cynaliadwyedd (1)
- Amgylchedd hanesyddol (1)
- Amodau daear (1)
- Hydroleg a llifogydd (1)
- Treftadaeth ddiwylliannol (1)

4.21 Datganodd tri ymatebwr y dylai canfyddiadau'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) ac unrhyw ddatrysiadau lliniaru gael eu darparu a'u trafod gyda'r gymuned; roedd dau ymatebwr yn hyderus y gall unrhyw ystyriaethau amgylcheddol gael eu goresgyn/liniaru a datganodd un ymatebwr y bydd gwaith daear sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn helpu i sefydlogi'r amgylchedd.

4.22 Awgrymwyd ymgynghori â'r canlynol fel rhan o'r EIA:

- Ymgynghori â Chyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd ar yr EIA ynglŷn â iechyd a lles.
 - Dylai asesu treftadaeth ddiwylliannol fod yn rhan o'r EIA. Dylai'r asesiad bwrdd gwaith gynnwys cofnodion o:
 - Gofnod Amgylchedd Hanesyddol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
 - Cofnodion Cofebau Cenedlaethol RCAHMMW
 - Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Mapiau a Dogfennau)
 - Archifau Sir Powys (Mapiau a Dogfennau)
 - Archifau hanes lleol perthnasol e.e. y rhai hynny yn Llyfrgell Ystradgynlais
 - Data Lidar Cyfoeth Naturiol Cymru (DSM a DTM ar y manylder uchaf sydd ar gael)
 - unrhyw ddata hanesyddol y llywodraeth o'r awyr sydd ar gael
- Ar ôl canlyniadau arolwg bwrdd gwaith a cherdded ar y safle, gallai fod angen camau asesu ychwanegol cyn penderfynu – e.e. arolwg geoffisegol, arolwg mesuredig o waith daear ac adeiladau sy'n sefyll, a thorri ffosydd prawf.
- Mae gan Brifysgol Caerdydd ystod o ganolfannau a grwpiau ymchwil perthnasol sy'n arbenigo mewn astudio, modelu a lleihau effeithiau amgylcheddol niweidiol prosiectau adeiladu ar raddfa fawr. Amlygodd gweithgareddau ymchwil a rhychwantau arbenigedd yr Ysgol Beirianneg sy'n mynd rhagddynt: mesur a modelu dal carbon/opsiynau gosod yn erbyn; astudiaethau bioamrywiaeth hydredol adnoddau tir a dŵr (yn cynnwys enw da am ddarparu ymgysylltu da â dinasyddion/ cyfranogaeth dinasyddion mewn gwyddoniaeth); a, logisteg a chaffael cadwyn gyflenwi adeiladu foesegol/gyfrifol.

4.23 Atebodd tri deg naw o ymatebwyr Gwestiwn 4b, a ofynnodd a oes unrhyw ystyriaethau amgylcheddol eraill a ddylai gael eu hystyried. O'r ymatebwyr hyn, cynghorodd 14 nad oedd ganddynt unrhyw ystyriaethau ychwanegol, ond pwysleisiodd un neu ddau bwysigrwydd sicrhau bod materion yn cael eu hateb a bod gan y cyhoedd gyfle i adolygu/cynnig sylwadau ynghylch yr EIA.

4.24 Gwnaeth dau ddeg pump o ymatebwyr sylwadau, y mwyafrif ohonynt wedi eu nodi ym mrieff y prosiect a'r ddogfen ymgysylltu cynnar i'w cynnwys yn yr EIA:

- Ecoleg/bywyd gwyllt, symudiad anifeiliaid, effeithiau bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd newydd/suddfannau carbon (6)
- Sŵn (6)
- Llygredd golau – cadw Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol (4)
- Llygredd / ansawdd aer (3)
- Tirlunio – plannu coed a llwyni o gwmpas y safle (2)
- Traffig (2)
- Effaith weledol (2)
- Effaith ar y gymuned – colli tir pori i gominwyr (1)
- Oriau gweithredu – 24/7 (1)
- Hawliau tramwyo i'w cadw (1)
- Adfer y mynydd (1)
- Gwneud adeiladau newydd yn eco-gyfeillgar (1)
- Mynd i'r afael â materion draenio wrth archwilio defnydd / aildddefnydd dŵr i

- hwyluso hyn (1)
- Estyn y llwybr beicio presennol o gwmpas y datblygiad newydd (1)
- Buddsoddi yn yr ardal ehangach i liniaru datblygu (1)
- Sefydlogrwydd y tir (1)
- Buddsoddi cywir mewn cludiant cyhoeddus cynaliadwy (1)

Buddion economaidd-gymdeithasol

- 4.25 O'r rhai hynny a wnaeth sylwadau ar y buddion economaidd-gymdeithasol a nodwyd ym mrieff y prosiect a'r ddogfen ymgysylltu cynnar, darparodd 18 o ymatebwyr sylwadau cadarnhaol am: swyddi lleol i bobl leol (10); adfywio economaidd-gymdeithasol yr ardal ac incwm ychwanegol - cadwyn gyflenwi (6); budd i'r gymuned leol (2) denu ymwelwyr i'r ardal (1); darparu cyfle am ymchwil a datblygu (1); a chyfleoedd i bobl ifanc (1).
- 4.26 Roedd deuddeg o ymatebwyr yn fwy amheus am ba fuddion lleol a fyddai'n dod o'r prosiect, gan fynegi pryder: na fyddai swyddi i bobl leol (9); nad oes/ychydig iawn o fuddion i'r gymuned leol (7); na fydd gweithwyr yn y safle yn dymuno byw yn y gymuned leol (2); bod buddion economaidd-gymdeithasol yn cael eu gorbwysleisio (2); ac nad yw ffermydd yn hyfyw heb hawliau pori (1).
- 4.27 Gwnaeth tri o ymatebwyr eraill yr awgrymiadau/sylwadau canlynol:
- Gosod y ganran o'r gweithlu lleol sy'n cael eu cyflogi ar y safle e.e. 20% o fewn 5 milltir (1)
 - Byddai twf mewn sgiliau ar gyfer rheilffyrdd yn fuddsoddiad da ar gyfer y dyfodol (1)
 - Mae gan Brifysgol Caerdydd hanes hir o astudio buddion economaidd-gymdeithasol gan eu bod yn gysylltiedig â buddsoddiadau 'seiliedig ar le' ac mae'n agored i ddulliau ar ffyrdd y gallai gyfrannu at astudiaethau ymchwil systematig, mesur neu ddadansoddi agweddau o'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd. Mae arbenigwyr yn cynnwys: Sefydliad Ymchwil Lleodedd Cynaliadwy'r Brifysgol ac Uned Ymchwil Economaidd Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd (1)
- 4.28 Gofynnodd Cwestiwn 5b a oes unrhyw fuddion economaidd-gymdeithasol y dylai tîm y prosiect ystyried wrth i'r cynigion gael eu datblygu. Darparodd 28 o ymatebwyr yr ymatebion canlynol:
- Swyddi lleol i bobl leol (7)
 - Cyfleoedd hyfforddiant a datblygu cysylltiadau ag ysgolion a phrifysgolion (5)
 - Adfywio'r ardal yn economaidd-gymdeithasol ac incwm ychwanegol (3)
 - Cymorth a buddsoddiad i gymunedau a gwasanaethau lleol (3)
 - Gwella'r tirwedd lleol (3)
 - Ailddechrau'r gwasanaethau rheilffordd o'r Onllwyn i Gastell-nedd (3)
 - Darparu tai digonol i weithwyr (2)
 - Cysylltiadau ag atyniadau twristiaeth (2)
 - Cymorth i Fentrau Bach i Ganolig yn ystod y cyfnod adeiladu (1)
 - Llinell dwristiaeth yn mynd i mewn i Abertawe SA1 a'r Gŵyr, Ardal Gadwraeth Jersey Marine, Abaty Nedd, Castell-nedd Hanesyddol, Rhaeadr Aberdulais, Cefn Coed a phorth yr Onllwyn i'r Bannau (1)
 - Meini prawf a awgrymir i sicrhau cyflogaeth leol (1):

- Gwarant yn ystod y cyfnod adeiladu bod gan 75% o'r gweithlu radiws o 20 milltir
- Gwarant yn ystod adeiladu, fod digon o bobl leol wedi cael eu hyfforddi fel y gallant gyfrif am 75% o'r gweithlu terfynol.
- Gwarant y bydd hyfforddiant a swyddi yn eu lle, er mwyn i bobl leol gyfrif am 75% o'r gweithlu yn ystod oes y ganolfan ragoriaeth.
- Gwarant bod unrhyw gyfleusterau ar y safle o'r cantin i'r storfa wedi eu stocio o ffynonellau lleol.

Yr iaith Gymraeg

- 4.29 Gofynnodd Cwestiwn 6A am effeithiau cadarnhaol y gallai'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd barn gymysg gan ymatebwyr am sut - ac os - y dylai hyn gael ei gyflawni.
- 4.30 Teimlai deunaw o ymatebwyr na fyddai'r prosiect yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg neu effaith niwtral, gyda sylwadau manwl yn awgrymu nad oes angen arwyddion Cymraeg a gall yr iaith Gymraeg gael ei hyrwyddo y tu allan i'r datblygiad. Teimlai 15 o ymatebwyr y gallai'r prosiect gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg gyda chyfleoedd dwyieithog i arddangos yr iaith Gymraeg a chyflogi siaradwyr Cymraeg lleol. Ar y llaw arall, credai 8 o ymatebwyr y byddai'n cael effaith negyddol gyda gwanhau'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg oherwydd mewnlifiad o bobl o du allan i'r ardal a cholled bosibl o ddiwylliant, treftadaeth a thraddodiad yn sgîl colli cominwyr yn pori'r mynyddoedd.
- 4.31 Awgrymodd rhai ymatebwyr fesurau lliniaru hefyd:
- Arwyddion dwyieithog e.e. yn y ganolfan ymwelwyr, arwyddion ffyrdd a diogelwch
 - Cynnig cyfleoedd i ddysgu a siarad Cymraeg gan weithwyr
 - Addysgu prentisiaid a chysiau prifysgol yn ddwyieithog
 - Defnydd enwau lleoedd Cymraeg o fewn y cynllun
- 4.32 Gofynnodd Cwestiwn 6B i bobl esbonio sut y credant y gallai'r cynigion gael eu fformwleiddio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r iaith Saesneg, a heb effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r iaith Saesneg
- 4.33 Atebodd deg o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda'r awgrymiadau canlynol:
- Arwyddion dwyieithog
 - Dosbarthiadau iaith Gymraeg yn rhad ac am ddim i staff a'u teuluoedd
 - Integreiddio'r ganolfan i mewn i'r gymuned fel bod gweithwyr yn deall a gwerthfawrogi'r iaith, diwylliant a threftadaeth
 - Agor cyfleusterau cynhadledd gyda gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg
 - Bod â chyswllt sy'n siarad Cymraeg ar gyfer y prosiect
 - Cyflogi pobl leol

Sylwadau ac awgrymiadau eraill

- 4.34 Cynigiodd Cwestiwn 6c gyfle i godi unrhyw faterionl perthnasol na chafodd eu hateb yn benodol mewn man arall yn y ffurflen ymateb. Cwblhaodd rhai ymatebwyr ar-lein y cwestiwn hwn i gyflwyno eu holl sylwadau'n unig a chafodd y gofod hwn ei ddefnyddio i gofnodi sylwadau a dderbyniwyd trwy e-bost a ffôn.
- 4.35 Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r holl faterion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, a llawer ohonynt yn dilyn themâu tebyg i'r rheiny a gwmpaswyd mewn cwestiynau cynharach ar y ffurflen ymateb.

Cyfleoedd	Sylwadau
Buddion economaidd	- Hwb i fusnesau lleol gan gynnwys llety gwely a brecwast presennol (4) - Cyfleoedd swyddi a swyddi crefftus (3) - Cyfleoedd twristiaeth – canolfan ymwelwyr (2) - Y posibilrwydd o weithio mewn partneriaeth â darparwr llety mawr – e.e. Premier Inn (1)
Adfywio'r ardal yn gorfforol	- Safle tir llwyd - Manteisiol i'w ailddatblygu
Annog arloesedd	Mae Transport Focus yn gefnogol ac yn nodi darpariaeth cyfleusterau profi a storio, gorsaf brofi a phlatform sy'n hanfodol i brofi a datblygu rhyngwyneb gorsaf y rheilffordd, ar gyfer addasrwydd stoc rholio ac isadeiledd, pobl yn cyrraedd y safle a hefyd ar gyfer gwella mynediad teithwyr, yn mynd ar drenau a dod oddi arnynt. Maent yn croesawu gwelliannau ychwanegol gyda'r cam neu'r bwlch rhwng trên a'r plattform (1)
Cyflymu'r broses	Cyflymu'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad a dod â'r cloddio ar y safle i ben yn gynharach (1)
Ystyriaethau	Sylwadau
Effeithiau amgylcheddol	- Pryder am sŵn - yn enwedig i bobl a bywyd gwyllt o gwmpas y safle (6) - Dirgryniadau (2) - Effaith weledol (2) - Llygredd golau'n effeithio ar awyrau tywyll a bywyd gwyllt (1) - Llygredd aer (1)
Traffig	- Traffig cynyddol (5) - Pryderon am ddamweiniau posibl gyda gweithgaredd cerbydau trwm cynyddol ar y darn hir o briffordd nesaf at y safle (A4221). Fe'i hadnabyddir yn lleol fel 'The Runway' (1) - Dylai traffig trwm ddefnyddio ffordd osgoi Glyn-nedd ac wedyn yr A4109 o Glyn-nedd - yr Onllwyn a PHEIDIO â defnyddio'r A4109 trwy Greunant i'r Onllwyn (1)

Effaith ar amwynder lleol	• Cwypm posibl mewn prisiau tai yn yr ardal (4) • Effaith ar y cominwyr (2) • Pryder am les trigolion a'u ffordd wledig o fyw (1) • Agosrwydd at gartrefi gyda threnau cyflym iawn ym Mlaendulais (1)
Mae'r safle yn anaddas	• Maint y datblygiad (1) • Achos busnes diffygiol – bydd y cyfnod brig ar gyfer cyflwyno trenau newydd wedi mynd heibio, gyda'r gyfradd yn gostwng o'r cyfartaledd ar hyn o bryd o 1,026 o gerbydau'r flwyddyn i 450 y flwyddyn (1) • Gwrthdaro rhwng yr hyn y mae dogfen yr ymgynghoriad yn ei ddatgan ynglŷn â'r achos busnes a'r Achos Amlinellol Strategol (SOC) a gymeradwywyd ym Mehefin 2018 nad yw'n amlinellu achos strategol cryf ac nid yw'r achos anghenion clir yn glir. Mae angen tystiolaeth ychwanegol ar yr incymau a gynhyrchir i dalu'r costau cyfalaf yn ôl. Mae angen i'r Achos Amlinellol Strategol gydnabod cyfleusterau profi Prydeinig sy'n bodoli ac felly nid oes angen adeiladu rhagor (1)
Oriau gweithredu	• Pryder am weithio 24/7 (2)
Dim datblygiad	• Adfer y safle i'w gyflwr naturiol (2) • Gwastraff arian trethdalwyr (1)

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- Manylion cyswllt gan ddarparwyr llety (2)
- Gallai rheilffyrdd llai Cymru brofi'n ddefnyddiol mewn darparu cyfleusterau cyfnewid i'ch myfyrwyr (1)
- Darparodd cwmni atebion ynni 'Oddi ar y grid' wedi'i anelu at y safle adeiladu wybodaeth ynghylch yr atebion mae wedi eu datblygu a allai gael effaith arwyddocaol ar yr Ôl troed Carbon ar Lefel Safle a byddem yn croesawu'r cyfle i'w harddangos yn y Ganolfan (1)
- Atododd Prifysgol Caerdydd restr o atodiadau a nodant bod angen cyfeirio at ymchwil cymuned 'Strategaeth Ddiwydiannol, Dyfodol Her Fawr Symudoledd' (1)

Dadansoddiad o adborth rhanddeiliaid

4.36 Mynegodd y rhan fwyaf o randdeiliaid a gymerodd ran mewn trafodaethau am y cynigion am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru gefnogaeth i'r prosiect a'r buddion economaidd-gymdeithasol a chyfleoedd y gallai eu dwyn i'r ardal - yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

4.37 Mae crynodeb o brif gyfleoedd, ystyriaethau ac ymholiadau/awgrymiadau yn cael eu darparu yn y tabl isod:

Cyfleoedd
• Swyddi i bobl leol - yn y cyfleuster a thrwy'r gadwyn gyflenwi (yn ystod adeiladu a gweithredu) • Buddsoddiad mewn hyfforddiant i alluogi pobl leol i hyfforddi/gwella sgiliau a cheisio am yr ystod o swyddi fydd eu hangen yn y cyfleuster - nawr a chenedlaethau'r dyfodol • Cysylltiadau ag ysgolion, darparwyr addysg bellach a phrifysgolion i wneud y gorau o hyfforddiant a chyfleoedd STEM/addysg • Ymchwil a datblygu/arloesi - a chyfleoedd ar gyfer darparwyr Addysg bellach/prifysgolion lleol • Denu diddordeb mewn busnesau Cymreig eraill (cadwyn gyflenwi) ac atyniadau lleol (twristiaeth) • Gwneud y gorau o fuddion a chyfleoedd lleol • Mae band eang yn broblem i rai o'r pentrefi cyfagos, yn enwedig Coelbren. Byddai'n dda pe gallai'r cyfleuster newydd ddod ag uwchraddiadau a fyddai o fudd i'r cymunedau cyfagos - ac ymestyn i lawr at Ystradgynlais
Ystyriaethau
• Effaith bosibl Brexit ar gwsmeriaid Ewropeaidd • Effeithiau'r prosiect ar gymunedau cyfagos a sut y byddant yn cael eu lliniaru - e.e. sŵn, dirgryniad, golau, ansawdd aer ayyb. • Gofynnwyd am ystyriaeth neilltuol i'r darn 110 milltir yr awr ar y cylch allanol - yn enwedig effeithiau sŵn a gweledol i drigolion lleol • Cyfaint y dŵr sy'n dod i lawr y mynydd, materion draenio a dŵr o dan y ddaear y bydd angen eu harchwilio a'u lliniaru • Tymhorau gwahanol ac amodau tywydd gwahanol • Agosrwydd cartrefi at y cledrau • Tir comin a sut y datrysir y broblem hon o hawliau cominwyr
Ymholiadau/awgrymiadau
• Lefel o fuddsoddiad yn y prosiect - cyhoeddus yn erbyn preifat? Faint o risg fydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid? Oes unrhyw gyllid preifat wedi cael ei sicrhau? • Faint sy'n cael ei fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu/arloesi? Pa drafodaethau a gafodd eu cynnal gyda phrifysgolion? Pa gyfleoedd sydd ar gyfer cyllid ymchwil y DU? • Mae nifer o brosiectau mawr wedi cael eu cynnig yng Nghymru sydd heb ddwyn ffrwyth. Beth yw realiti cyflawni'r prosiect hwn? • Ydych chi wedi bod yn trafod y cynigion gyda Network Rail a buddsoddwyr/gweithredwyr posibl eraill yn y diwydiant rheilffordd? Pa mor lwyddiannus oedd y trafodaethau?

- Pwy fydd yn cyflwyno'r cais cynllunio, ac a fydd yn cael ei benderfynu gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol?
- Ble arall yn y DU mae profi rheilffyrdd ar gael? Pa ddiddordeb sydd wedi bod o Ewrop/yn fyd-eang?
- Fydd uwchraddiad i'r isadeiledd signalau ar linell Aberhonddu ac a fydd hyn yn helpu i ddod â threnau teithwyr yn ôl?
- Potensial i'r cyfleuster weithredu fel catalydd i drawsffurfio a chynyddu'r isadeiledd rheilffordd/trenau teithwyr yng Nghymru
- Pa safleoedd eraill a gafodd eu hystyried ar gyfer y prosiect?
- Beth sy'n cael ei wneud am y tir comin - o ran iawndal neu adleoli?
- Fydd arglawdd rhwng cymunedau lleol a'r cledrau? Os felly, ble a pha mor fawr?
- Fydd unrhyw gyllid ar gael i'r pentrefi lleol fel yn achos Fferm Wynt yr Onllwyn?
- Pryd fydd pobl leol a rhanddeiliaid yn cael gwybod am y mesurau lliniaru a gynigir?
- Fydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn fformat tebyg y tro nesaf?
- Fydd adborth o'r ymgysylltu cynnar?
- Pa mor hir fydd y ddogfen ymgynghoriad cynllunio cyn cyflwyno cais? Fydd copïau caled yn cael eu rhoi ar gael i brif rhanddeiliaid lleol fel y Cynghorau Cymuned?
- Sut mae cynigion yn cysylltu â chynlluniau adfer Celtic Energy?
- Pwy fydd yn penderfynu ar y cais cynllunio?

5. Casgliadau

- 5.1 Cymerodd dros 450 o bobl ran yn yr ymgysylltu cynnar ar gynigion am ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru a hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i gymryd rhan a rhoi eu hadborth.
- 5.2 Cafodd lefel uchel o gefnogaeth ei mynegi i'r cynigion, yn enwedig y buddion economaidd-gymdeithasol posibl, swyddi lleol (yn ystod adeiladu a gweithredu) a chyfleoedd posibl i'r gadwyn gyflenwi leol.
- 5.3 Roedd ystod eang hefyd o faterion amgylcheddol a godwyd, yn enwedig gan bobl sy'n byw yn agos iawn at y safle, y bydd angen mynd i'r afael â hwy trwy'r EIA a'r cais cynllunio. Mae hyn yn cynnwys sŵn, dirgryniad, golau, ansawdd aer ac effaith weledol - yn enwedig mewn perthynas â'r potensial am weithredu 24/7.
- 5.4 Mynegodd nifer o ymatebwyr hefyd bryderon am ddefnydd cynyddol llinell y gangen i ddod â stoc rholio i mewn ac effaith ar ffyrdd lleol.
- 5.5 Mae'r adborth a dderbyniwyd wedi cael ei rannu gyda Thîm y Prosiect a bydd yn cael ei ystyried wrth i'r cynigion symud ymlaen. Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei roi ar gael ar-lein ar wefan y prosiect.

6. Camau nesaf

- 6.1 Bydd adborth o'r gwaith ymgysylltu cynnar, ynghyd â thrafodaethau parhaol gyda rhanddeiliaid a'r canlyniadau o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol yn llywio'r cynigion terfynol ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yng Nghymru.
- 6.2 Yn y cyfamser, bydd Celtic Energy yn cyflwyno ei gynigion ar gyfer adnewyddu'r safle, a fydd yn cynnwys rhaglen o gloddwaith sylweddol.
- 6.3 Bydd cynigion ar gyfer yr uwchgynllun terfynol yn sail i ymgynghoriad statudol cyn cyflwyno cais cynllunio am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd.

Atodiad 1: Llythyr rhagolwg rhanddeiliaid

2 Gorffennaf 2019

Annwyl

Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd - ymgysylltu'n gynnar – gwahoddiad i ddigwyddiad rhagolwg ar gyfer rhanddeiliaid

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu cynigion am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar safle cloddio glo brig a golchfa lo yn Onllwyn a Nant Helen ar flaenau Cwm Dulais.

Mae'r cynigion yn cynnwys dau gylch profi rheilffordd drydanol, canolfan ymchwil a gweithrediadau, trac profi llinellol cyflymder isel, ynghyd â gallu hyfforddi, cynnal, storio a datgomiynu a fyddai'n gweithredu fel sbardun i arloesedd, buddsoddiad a thwf yn y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, Y Deyrnas Unedig ehangach ac yn rhyngwladol.

Bellach, ar ôl cynnal 'profion marchnad feddal' helaeth â rhanddeiliaid y diwydiant rheilffyrdd, rydym yn cynnal ymgysylltiad cynnar â phreswylwyr ac ystod eang o randdeiliaid lleol a chymunedol i ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dyluniad cychwynnol. Bydd hyn yn helpu i nodi sut y gallwn fwyafu'r buddion cymdeithasol ac economaidd a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

Byddwn yn cynnal sesiynau galw heibio cyhoeddus ar 17 a 18 Gorffennaf a hoffem eich gwahodd i ragolwg ar gyfer rhanddeiliaid **rhwng 10.30 a chanol dydd, ddydd Mercher 17 Gorffennaf, yn Neuadd Les Onllwyn.**

Fel arall, mae croeso i chi fynychu un o'r sesiynau galw heibio cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y cynigion a'r ymgysylltiad i'w canfod yn y daflen wybodaeth amgaeedig (sydd wedi'i hanfon at dros 9,500 o gyfeiriadau cartref a busnes yng nghyffiniau'r safle) ac ar dudalen we'r prosiect: <https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd>.

Byddem hefyd yn croesawu'r cyfle i gwrdd â grwpiau cymunedol allweddol i esbonio ein cynigion sy'n datblygu a chlywed eich syniadau i helpu i ddeall materion a chyfleoedd allweddol yn yr ardal yn well. I drefnu cyflwyniad, ffoniwch fi ar 01639 865515 neu e-bostiwch ymgyngoriad@grasshopper-comms.co.uk.

Yr eiddoch yn gywir

Jo Hatton Jones
Cyfarwyddwr yn Grasshopper Communications

2 July 2019

Dear

Global Centre of Rail Excellence in Wales: early engagement – invitation to stakeholder preview event

The Welsh Government is working in partnership with Neath Port Talbot and Powys Councils to develop proposals for a Global Centre of Rail Excellence on an open cast mine and coal-washery site in Onllwyn and Nant Helen at the head of the Dulais Valley.

The proposals include two electrified rail test circuits, a research and operations centre, a low speed linear test track together with training, maintenance, storage and decommissioning capacity, which would act as a driver for rail industry innovation, investment and growth in Wales, the wider United Kingdom and internationally.

Having undertaken extensive 'soft-market-testing' with rail industry stakeholders, we are now carrying out early engagement with residents and a wide range of local and community stakeholders to consider the opportunities and constraints associated with the initial design. This will help identify how we can maximise social and economic benefits whilst minimising environmental impacts.

We are holding public drop-in sessions on 17 and 18 July and would like to invite you to a **stakeholder preview from 10.30 to midday on Wednesday, 17 July at the Onllwyn Welfare Hall.**

Alternatively, you are welcome to attend one of the public drop-ins. More information about the proposals and engagement can be found in the attached information sheet (that has been sent to over 9,500 household and business addresses around the site) and on the project webpage: <https://gov.wales/global-centre-of-rail-excellence>.

We would also welcome the opportunity to meet with key community groups to explain our emerging proposals and hear your thoughts to help better understand key issues and opportunities in the area. To arrange a presentation, please give me a call on 01639 865515 or email consultation@grasshopper-comms.co.uk.

Yours sincerely

Jo Hatton Jones
Director at Grasshopper Communications

Atodiad 2: Llythyr i'r gymuned

Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd Global Centre of Rail Excellence

Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd: ymgysylltu'n gynnar – gwahoddiad i ddiwyddiadau gwybodaeth cyhoeddus

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu cynigion am Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar safle cloddio glo brig a golchfa lo yn Onllwyn a Nant Helen ar flaenau Cwm Dulais.

Byddai'r cynigion yn rhan ychwanegol bwysig o strategaeth adnewyddu'r safle wrth i weithgarwch sy'n gysylltiedig â glo ddod i ben gan weithredu fel sbardun i arloesi, buddsoddi a thwf y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig yn ehangach ac yn rhyngwladol.

Y Cynigion

Byddai sefydlu'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn cael ei gyflawni drwy gyfuno'r tair rhan wahanol:


- Dolen rheilffordd allanol gyflym iawn wedi'i thrydanu (6.9 km) ar gyfer profi trenau teithwyr hyd at gyflymder uchaf o 110 mya; dolen rheilffordd fewnol cyflymder isel wedi'i thrydanu (4.5 km) ar gyfer profi seilwaith a chyfarpar ac adeilad rheoli ar dir sy'n gysylltiedig â'r gwaith glo brig.
- Canolfan ymchwil a gweithrediadau ar dir sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â'r gwaith glo ar gyfer addysg, ymchwil a datblygu, swyddfeydd a chynadleddau, storio, cynnal a chadw a datgomisiynu trenau a cherbydau (stoc rholio).
- Trac profi llinellol cyflymder isel (555 metr) â system fecanyddol wedi'i gyrru gan bwli ar gyfer profi seilwaith.

Gallai'r tair elfen hyn fod yn weithredol ddydd a nos be bai angen hynny, yn amodol ar alw'r farchnad a rheolau amgylcheddol i sicrhau y cydymffurfir â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddio.

Byddai cyflawni pob elfen o'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn arwain at ddatblygu cysylltiedig, gan gynnwys gwrthgloddiau, amwynderau ac isadeiledd diogelwch, ffyrdd mynediad, mannau parcio ceir, draenio a thirlunio.

Yn ogystal, mae gan y safle fynediad rheilffordd drwy linell gangen/gludo i'r de sy'n cysylltu Prif Linell De Cymru drwy gilffordd Crymlyn Abertawe a byddai'r fynedfa bresennol i'r safle drwy'r A4109 yn cael ei defnyddio.

Delwedd: Y cynllun arfaethedig



Ystyriaethau amgylcheddol

Bydd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn cael ei baratoi i ddeall yr amgylchedd lleol yn llawn fel gellir osgoi effeithiau amgylcheddol sylweddol. Os na fyddai'n bosib osgoi effeithiau'n gyfan gwbl, mae meddu ar wybodaeth gadarn am yr amgylchedd lleol yn golygu y gellir lliniaru'n briodol i leihau unrhyw effeithiau hirdymor.

Bydd yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cynnwys nifer o faterion amgylcheddol gwahanol, gan gynnwys bioamrywiaeth, sŵn a dirgryniad, ansawdd aer, traffig a chlodiant, hydroleg a llifogydd, amgylchiadau'r tir, treftadaeth ddiwylliannol, tirwedd a'r effaith weledol, iechyd a lles a newid yn yr hinsawdd.

Swyddi a'r economi leol

Byddai'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn gatalydd i fuddsoddiad yn y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnig cyfleuster ymchwil, datblygu a phrofi o'r radd flaenaf yn y DU.

Byddai adeiladu'r cyfleuster yn arwain at effaith economaidd leol gadarnhaol ynddo'i hun a gallai olygu bod angen oddeutu 800 blwyddyn gwaith unigolyn i'w gyflawni – felly pe bai'r prosiect yn cymryd pedair blynedd i'w gwblhau, byddai'n cyflogi 200 o weithwyr amser llawn.

Byddai angen ystod o rolau gwahanol ar y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd a gallai gynnal dros 150 o swyddi pan fyddai'n gwbl weithredol. Byddai'r ganolfan hefyd yn denu ymwelwyr rheolaidd i'r ardal wrth i academyddion ac ymchwilwyr, peirianwyr, contractwyr a thimau cefnogi ddefnyddio'r safle ar gyfer prosiectau unigol, gan gynnig hwb posib i ddiwydiannau gwasanaeth lleol. Ymhen amser ac ar ôl ei sefydlu, efallai y bydd cyfleoedd i ddenu gweithgareddau a swyddi eraill i'r safle.

Rhagor o wybodaeth

Ar ôl cynnal 'profion marchnad feddal' helaeth â rhanddeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd, rydym bellach yn ymgysylltu'n gynnar â'r gymuned leol ynghylch y dyluniad cychwynnol. Bydd hyn yn helpu i nodi sut y gallwn fwyafu'r buddion cymdeithasol ac economaidd a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

I gael rhagor o wybodaeth, dewch draw i un o'n digwyddiadau galw heibio:

- **1yp - 7yh** ar **ddydd Mercher 17 Gorffennaf** yn **Neuadd Les Onllwyn**, Rhodfa Wembley, Onllwyn, Castell-nedd SA10 9HL
- **1yp - 7yh** ar **ddydd Iau 18 Gorffennaf** yn **Neuadd a Sefydliad Lles Glowyr Abercraf**, Tanyrallt, Aber-craf SA9 1AX

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am y cynigion a'r ffurflen adborth yn <https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd>.

Fel arall, cysylltwch â ni drwy:

- e-bostio: ymgyngoriad@grasshopper-comms.co.uk
- ffonio: 01639 865515
- ysgrifennu at: Freepost GRASSHOPPER CONSULT (dim angen stamp na chyfeiriad arall)

Byddwn yn ystyried yr holl adborth a dderbynnir ac yn ei ddefnyddio ynghyd â chanlyniadau astudiaethau technegol ac amgylcheddol i lywio'r uwchgynllun wrth iddo ddatblygu.

Y dyddiad cau yw **7 Hydref 2019**.

Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd Global Centre of Rail Excellence

Global Centre of Rail Excellence: early engagement – invitation to public information events

The Welsh Government is working in partnership with Neath Port Talbot and Powys Councils to develop proposals for a Global Centre of Rail Excellence on an open cast mine and coal-washery site in Onllwyn and Nant Helen at the head of the Dulais Valley.

The proposals would form an important addition to the site's restoration strategy as coal related activity comes to an end and act as a driver for rail industry innovation, investment and growth in Wales, the wider United Kingdom and internationally.

The Proposals

Delivering the Global Centre of Rail Excellence would be achieved by combining three distinct components:


- Electrified high speed outer rail loop (6.9 km) for testing passenger trains up to a maximum speed of 110 mph; electrified low speed inner rail loop (4.5 km) for testing infrastructure and equipment and a control building on land associated with the open cast mining operation.
- Research and operations centre on land currently associated with the coal-washery for education, research and development, offices and conferencing, storage, maintenance and decommissioning of trains and carriages (rolling stock).
- Low speed linear testing track (555metres) with a mechanical pulley-driven system for infrastructure testing.

These three components could operate 24 hours a day if required, subject to market demand and environmental controls to ensure all legal and regulatory requirements are met.

Delivering each component of the Global Centre of Rail Excellence would require associated development, including earthworks, utilities and security infrastructure, access roads, car parking, drainage and landscaping.

The site has rail access via a branch/freight line to the south that links with the South Wales Main Line via Swansea Burrows sidings and the existing access to the site via the A4109 would be used.

Image: Proposed layout



Environmental considerations

An Environmental Impact Assessment (EIA) will be prepared to fully understand the local environment so that significant environmental impacts are avoided. Where it would not be possible to avoid impacts altogether, having good knowledge of the local environment means that appropriate mitigation can be used to minimise any long-term impacts.

The EIA will cover a number of different environmental topics including biodiversity, noise and vibration, air quality, traffic and transport, hydrology and flooding, ground conditions, cultural heritage, landscape and visual impact, health and wellbeing, and climate change.

Jobs and the local economy

The Global Centre of Rail Excellence would be a catalyst for rail industry investment in Wales, providing a state-of-the-art facility for research, development and testing in the UK.

The construction of the facility would have a positive local economic impact in its own right and could require in the region of 800 person years of employment to deliver – so if the project takes four years to complete, it would employ 200 full time workers.

The Global Centre of Rail Excellence would require a range of different roles and could sustain over 150 jobs once fully operational. It is envisaged that the site could become a UK hub for operational training, providing opportunities for people to acquire the skills they need for a career in the rail industry. The Centre would also bring regular visitors to the area as academics & researchers, engineers, contractors and support teams utilise the site on a project by project basis, providing a potential boost to local service industries. In time and once established, there may be opportunities to attract further activities and jobs to the site.

Find out more

Having undertaken extensive 'soft-market-testing' with rail industry stakeholders, we are now carrying out early engagement with the local community on the initial design. This will help identify how we can maximise social and economic benefits whilst minimising environmental impacts.

To find out more please come along to one of our drop-in events:

- **1pm to 7pm on Wednesday 17 July at Onllwyn Welfare Hall**, Wembley Avenue, Onllwyn, Neath SA10 9HL
- **1pm to 7pm on Thursday 18 July at Abercrave Miners Welfare Hall & Institute**, Tanyrallt, Abercraf SA9 1AX

Further information on the proposals and a feedback form can be found at the webpage <https://gov.wales/global-centre-of-rail-excellence>.


Alternatively, please contact us by:

- emailing consultation@grasshopper-comms.co.uk
- calling 01639 865515
- writing to Freepost GRASSHOPPER CONSULT (no stamp or further address required).

We will review all the feedback receive and use it along with results of technical and environmental studies to inform the evolving master plan.

The deadline is **7 October 2019**.

Atodiad 3: Ardal ymgysylltu/ymgyngori





Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd: Ymgysylltu'n Gynnar

Global Centre of Rail Excellence: Early Engagement

Sesiynau Galw Heibio i'r Cyhoedd

Dewch i un o'r sesiynau galw heibio i glywed mwy am gynigion ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn Onllwyn a Nant Helen:

- 1yp - 7yh ar ddydd Mercher
17 Gorffennaf yn Neuadd Les Onllwyn, Rhodfa Wembley, Onllwyn, Castell-nedd SA10 9HL
- 1yp - 7yh ar ddydd Iau
18 Gorffennaf yn Neuadd a Sefydliad Lles Glowyr Abercraf, Tanyralit, Abercraf SA9 1AX

Gellir canfod rhagor o wybodaeth yn <https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd>

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw 7 Hydref 2019.

Public Drop-in Sessions

Come to one of the drop-in events to find out more about proposals for the Global Centre of Rail Excellence in Onllwyn and Nant Helen:

- 1pm to 7pm on Wednesday
17 July at Onllwyn Welfare Hall, Wembley Avenue, Onllwyn, Neath SA10 9HL
- 1pm to 7pm on Thursday 18 July
at Abercraf Miners Welfare Hall & Institute, Tanyralit, Abercraf SA9 1AX

Further information can be found at: <https://gov.wales/global-centre-of-rail-excellence>

Deadline for comments is 7 October 2019.

Atodiad 5: Posteri



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd: Ymgysylltu'n Gynnar

Global Centre of Rail Excellence: Early Engagement

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu cynigion ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar safle glo brig Nant Helen a safle golchfa lo Onllwyn ar flaenau Cwm Dulais.

Sesiynau Galw Heibio i'r Cyhoedd

Dewch i un o'r digwyddiadau galw heibio i gael gwybod rhagor:

- 1p - 7yh ar ddydd Mercher 17 Gorffennaf yn Neuadd Les Onllwyn, Rhodfa Wembley, Onllwyn, Castell-nedd SA10 9HL
- 1p - 7yh ar ddydd Iau 18 Gorffennaf yn Neuadd a Sefydliad Lles Glowyr Abercraf, Tanyralit, Abercraf SA9 1AX

Gellir canfod rhagor o wybodaeth yn <https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd>

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw
7 Hydref 2019.

We are working in partnership with Neath Port Talbot and Powys Councils to develop proposals for a Global Centre of Rail Excellence on an open-cast mining and coal washery site in Onllwyn and Nant Helen at the head of the Dulais Valley.


Public Drop-in Sessions

Come to one of the drop-in events to find out more:

- 1pm to 7pm on Wednesday 17 July at Onllwyn Welfare Hall, Wembley Avenue, Onllwyn, Neath SA10 9HL
- 1pm to 7pm on Thursday 18 July at Abercraf Miners Welfare Hall & Institute, Tanyralit, Abercraf SA9 1AX

Further information can be found at : <https://gov.wales/global-centre-of-rail-excellence>

Deadline for comments is 7 October 2019.



Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd: Ymgysylltu'n Gynnar

Global Centre of Rail Excellence: Early Engagement

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Powys i ddatblygu cynigion ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd ar safle glo brig Nant Helen a safle golchfa lo Onllwyn ar flaenau Cwm Dulais.

We are working in partnership with Neath Port Talbot and Powys Councils to develop proposals for a Global Centre of Rail Excellence on an open-cast mining and coal washery site in Onllwyn and Nant Helen at the head of the Dulais Valley.

Sesiynau Galw Heibio i'r Cyhoedd

Os nad oedd modd i chi alw heibio ar 17/18 Gorffennaf, dewch draw i'r digwyddiad ychwanegol hwn i gael gwybod mwy:

- 3-7pm ar Ddydd Mawrth, 3ydd o Fedi 2019 yng Nghanolfan Les Coelbren, Station Road, Coelbren, Powys SA10 9PL

Public Drop-in Sessions

If you weren't able to attend on 17/18 July, please come along to the additional drop in event we are holding to find out more:


- 3-7pm on Tuesday, 3 September 2019 at Coelbren Welfare Hall, Station Road, Coelbren, Powys SA10 9PL

Gellir canfod rhagor o wybodaeth yn <https://gov.wales/canolfan-fyd-eang-rhagoriaeth-rheilffyrdd>

Further information can be found at: <https://gov.wales/global-centre-of-rail-excellence>

Deadline for comments is 7 October 2019.

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw 7 Hydref 2019.



Atodiad 6: Ffurflen ymateb

Ffurflen ymateb

Cwestiwn 1a: Yn eich barn chi, pa mor addas yw'r safle arfaethedig ar gyfer Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd? Ticiwch un				
Addas iawn	Addas	Heb benderfynu	Anaddas	Anaddas iawn

Cwestiwn 1b: Defnyddiwch y lle isod i esbonio'ch ateb i C1a.	
Cwestiwn 1c: A oes cyfleoedd eraill y dylem eu hystyried neu gyfyngiadau rydych chi'n meddwl y dylem eu hystyried o hyn ymlaen?	
Cyfleoedd:	Cyfyngiadau:

Cwestiwn 2a: Beth yw'ch barn am ein cynigion presennol ar gyfer cydrannau allweddol y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd?		
Cylchoedd profi trenau:	Y ganolfan ymchwil a gweithrediadau:	Y cledrau profi llinelllog:
Cwestiwn 2b: A oes unrhyw gyfleusterau eraill y dylem fod yn eu hystyried yn eich barn chi?		

Cwestiwn 3: A oes gennych sylwadau neu bryderon ynghylch y gwaith datblgu cysylltiedig a amlinellwyd uchod?

Cwestiwn 4a: A oes gennych sylwadau ynghylch yr ystyriaethau amgylcheddol a amlygwyd yn yr adran hon?

Cwestiwn 4b: A oes unrhyw ystyriaethau amgylcheddol eraill y dylem ni eu hystyried yn eich barn chi?

Cwestiwn 5a: A oes gennych sylwadau ynghylch y buddion cymdeithasol-economaidd a restrir uchod?

Cwestiwn 5b: A oes unrhyw fuddion cymdeithasol-economaidd y byddech chi'n dymuno i ni eu harchwilio wrth inni ddatblygu'r cynigion?

**Ffurflen Ymateb i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 6a Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r *Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd* yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 6b A fydddech cystal ag esbonio hefyd sut y credwch y gellid llunio'r cynigion neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 6c: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: ☐

Response form

Question 1a: In your view, how suitable is the proposed site for the Global Centre of Rail Excellence? Please tick one

Very suitable	Fairly suitable	Undecided	Not suitable	Not at all suitable

Question 1b: Please use the space below to explain your answer to Q1a.

Question 1c: Are there any other opportunities we should explore or constraints that you think we need to take into account going forward?

Opportunities:	Constraints:

Questions 2a: What do you think of our current proposals for the key components of the Global Centre for Rail Excellence?

Rail testing loops:	The research and operations centre:	The linear testing track:

Question 2b: Are there any other facilities that you think we should be considering?

Question 3: Do you have any comments or concerns regarding the associated development work outlined above?

Question 4a: Do you have any comments on the environmental considerations highlighted in this section?

Question 4b: Are there any other environmental considerations that you think we need to take into account?

Question 5a: Do you have any comments with regard to the socio-economic benefits listed above?

Question 5b: Are there any additional socio-economic benefits that you would like us to investigate as we develop the proposals?

**Consultation
Response Form**

Your name:

Organisation (if applicable):

email / telephone number:

Your address:

Question 6a: We would like to know your views on the effects that *The Global Centre of Rail Excellence* would have on the Welsh language, specifically on opportunities for people to use Welsh and on treating the Welsh language no less favourably than English.

What effects do you think there would be? How could positive effects be increased, or negative effects be mitigated?

Question 6b: Please also explain how you believe the proposals could be formulated or changed so as to have positive effects or increased positive effects on opportunities for people to use the Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language, and no adverse effects on opportunities for people to use the Welsh language and on treating the Welsh language no less favourably than the English language.

Question 6c: We have asked a number of specific questions. If you have any related issues which we have not specifically addressed, please use this space to report them:

Responses to consultations are likely to be made public, on the internet or in a report.

If you would prefer your response to remain anonymous, please tick here: ☐